# Papau Bwrdd

8 Rhagfyr 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **NRW B B 73.16** |
| **Noddir y Papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | I nodi materion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder - efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu CNC i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y tymor hir:**<br><br>**Mabwysiadu dull integredig:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd gydweithrediadol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br><br>Mae map ffordd CNC yn disgrifio sut mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y ffordd rydym yn gweithio i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn nodi ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Trwy'r gwaith a wnawn a'r ffordd rydym yn ei wneud, bydd CNC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella llesiant, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ledled Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel hefyd. |

**Mater**

1. Diweddariad Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Bwrdd CNC.

**Cefndir**

2. Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio'r prif faterion a datblygiadau diweddar mewn perthynas â llesiant, iechyd a diogelwch, gan roi diweddariad, y prif ystadegau a dadansoddiad yn ogystal â chrynodeb byr o'r cynnydd a wnaed o ran materion penodol.

**Asesiad**

## Llesiant ac iechyd

### Ystadegau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2016-17

3. O fis Ebrill i fis Medi 2016, y gyfradd dreigl ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch am y flwyddyn yw 6.1 diwrnod wedi'u colli i bob gweithiwr y flwyddyn, sy'n cyfateb i 2.8%. At ddiben y diweddariad hwn a diweddariadau yn y dyfodol, bydd cyfraddau absenoldeb yn cael eu nodi yn y ffordd hon er mwyn bod yn hollol gyson ag adroddiadau rheoli eraill a'r meincnod treigl blwyddyn blynyddol. Meincnod CNC yw dim mwy na saith diwrnod wedi'u colli i bob gweithiwr, sy'n cyfateb i 3.1%.

4. Mae'r tri phrif reswm dros absenoldeb ar gyfer y cyfnod hwn yn dod i gyfanswm o 52% o'r holl absenoldeb oherwydd salwch a hysbyswyd ers 1 Ebrill 2016. Noder bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y digwyddiadau a diwrnodau a gollwyd oherwydd iechyd meddwl a hysbyswyd ers y diweddariad diwethaf, cynnydd o 150% o ran dyddiau a gollwyd. Ymddengys bod hyn oherwydd cyfuniad o gofnodi hwyr a chynnydd mewn hysbysiadau o ddigwyddiadau iechyd meddwl.

| Rheswm dros absenoldeb | % Cyffredinol | Diwrnodau a gollwyd |
|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 25% | 1438 |
| System Anadlol | 15% | 873 |
| System Cyhyrysgerbydol a Meinwe Gysylltiol | 12% | 705 |
| **Cyfanswm absenoldebau** | **100** | **5786** |

5. Mae ein data iechyd galwedigaethol yn dangos bod 40% o'n hatgyfeiriadau at reolwyr yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl. Mae 40% o'r atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn ymwneud â straen yn y gweithle. Baich gwaith, newid swyddogaeth, bwlian ac aflonyddu, a digwyddiadau yn y gwaith sy'n achosi straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Ceir manylion pellach ar gyfer cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi yn y tabl isod. Sylwer bod y data'n dangos nad yw achosion iechyd meddwl bob amser o ganlyniad i un achosydd straen ac efallai y ceir cyfuniad o broblemau, e.e. gweithle a phersonol.

| Mis | Atgyfeiriadau | Iechyd meddwl | Straen personol | Pryder | Straen yn y gweithle | Achosion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2016 | 15 | 6 | 2 | 2 | 2 | Baich gwaith, digwyddiad yn y gweithle |
| Awst 2016 | 11 | 7 | 1 | 2 | 4 | Baich gwaith (3), newid swyddogaeth |
| Medi 2016 | 16 | 4 | 2 | 1 | 1 | Bwlio ac aflonyddu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 42 | 17 | 5 | 5 | 7 | |

**Mentrau llesiant a datblygiadau**

6. Byddwn yn parhau i dynnu sylw arweinwyr a rheolwyr at absenoldeb oherwydd iechyd meddwl wrth i ni ganolbwyntio ar wella llesiant yn y sefydliad. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr weithio ar fesurau i ymdrin â'r mater hwn, gan gydnabod effaith bosibl gwerthuso swyddi, adolygiadau meysydd busnes a newid sefydliadol ar staff ac effaith staff yn gadael ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Mae enghreifftiau da o gyfarwyddiaethau'n helpu staff i ymdrin â phroblemau sy'n gysylltiedig â straen a dychwelyd i'r gwaith yn effeithiol. Mae gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i brofiadau o'r fath wedi cael eu defnyddio i helpu i wella'r ffordd mae staff yn cael eu cefnogi a'u rheoli ac i atal digwyddiadau yn y lle cyntaf. I helpu gweithwyr ymdrin â phroblemau personol a allai effeithio ar eu perfformiad yn y gwaith a'u hiechyd a'u lles er gwaeth, rydym wedi sicrhau bod ein rhaglen cymorth i weithwyr ar gael i bob aelod o'r staff. Yn ogystal, rydym yn darparu hyfforddiant ar wydnwch emosiynol i staff er mwyn rhoi hunanymwybyddiaeth a sgiliau iddynt i atgyfnerthu eu gwydnwch personol.

7. Mae dadansoddiad o absenoldeb iechyd meddwl ac atgyfeiriadau iechyd meddwl gan reolwyr at ein darparwr iechyd galwedigaethol yn dangos nad yw nifer sylweddol o staff sy'n dangos arwyddion o straen neu'n dioddef o straen o anghenraid yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad a chymorth. Yn ystod cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi 2016, cofnodwyd absenoldeb rhyw 37 o staff oherwydd problemau iechyd meddwl ond dim ond 15 atgyfeiriad a wnaed am faterion iechyd meddwl yn ystod yr un cyfnod. Mae tystiolaeth arall hefyd yn dangos nad yw llawer o reolwyr llinell yn defnyddio ein dulliau rheoli straen, fel yr asesiad risg straen, naill ai'n rhagweithiol neu'n adweithiol. Er mwyn rhoi sylw i hyn, rydym wedi codi ymwybyddiaeth ar draws y busnes o argaeledd y broses atgyfeirio yn rhan o'r weithdrefn asesu risg straen trwy ymgysylltu wyneb yn wyneb â grwpiau arwain a thrwy atgoffa rheolwyr yn rheolaidd o'r polisïau a'r gweithdrefnau yr ydym wedi'u sefydlu i helpu i reoli'r problemau hyn.

8. Rydym yn parhau i weithio gyda'r busnes i wella ansawdd ein data absenoldeb. Er nad yw rheolwyr yn gallu nodi 'anhysbys' fel rheswm dros absenoldeb mwyach, mae'r data yn dal i gynnwys nifer fawr o resymau am absenoldeb sy'n wag neu'n anhysbys, ac rydym yn ymchwilio i'r rhain i ganfod gwir natur y salwch. Mae hyn yn bwysig oherwydd, hyd yn hyn eleni, mae rhesymau dros absenoldeb sy'n anhysbys/gwag yn cyfrif am 421 diwrnod (106 digwyddiad), sy'n 7% o'r holl absenoldeb a hysbyswyd ar gyfer y cyfnod hwn.

9. Rydym wedi sefydlu nifer o fentrau ac wedi codi ymwybyddiaeth i gefnogi ein hymrwymiad i iechyd a llesiant yn CNC, gan gynnwys y canlynol:

- Diweddaru ac ailgyhoeddi ein mentrau Iechyd Galwedigaethol, Cyfarpar Sgrin Arddangos a darpariaeth o brofion llygaid a sbectolau
- Darparu gwybodaeth am anhwylderau braich uchaf a sut i'w lleihau
- Gweithio yn ystod misoedd y gaeaf
- Diwrnod cenedlaethol beicio i'r gwaith – 14 Medi
- Wythnos genedlaethol iechyd y llygad – 19-25 Medi
- Amser i Newid Cymru
- Cylchlythyrau Care First
- Menter Amser Siarad
- Stoptober 2016
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd – 10 Hydref

10. Roedd yr holl fentrau hyn yn atgoffa staff am y ffyrdd o edrych ar eu holau eu hunain a'u cydweithwyr yn y gwaith a thu allan i'r gwaith, ac yn eu hannog i wneud hynny. Tynnwyd sylw'r staff at y mentrau hyn trwy ein mewnrwyd, diweddariadau ein cylchlythyr misol i reolwyr, tudalennau Yammer, a thrwy ymgysylltu yn ystod Fforymau Iechyd, Lles a Diogelwch lleol a chyfarfodydd tîm.

## Iechyd a Diogelwch

**Prif ystadegau damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer 2016-17 ar 31 Hydref 2016 gyda ffigyrau blwyddyn lawn 2014-15 a 2015-16 er mwyn cymharu.**

<table>
<tr><th></th><th>Digwyddiadau ers y diweddariad diwethaf</th><th>Digwyddiadau (2016-17 – hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn)</th><th>Blwyddyn lawn 2015-16</th><th>Blwyddyn lawn 2014-15</th></tr>
<tr><td>RIDDOR – staff[1]</td><td>2</td><td>8</td><td>12</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau colli amser – staff[1]</td><td>1</td><td>3</td><td>8</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau, dim colli amser – staff</td><td>14</td><td>64</td><td>96</td><td>55</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau fu bron â digwydd – staff[2]</td><td>38</td><td>143</td><td>304</td><td>131</td></tr>
<tr><td>Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol[3]</td><td>3</td><td>7</td><td>3</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau – contractwyr</td><td>3</td><td>5</td><td>6</td><td rowspan="2">60</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau – y cyhoedd</td><td>10</td><td>44</td><td>60</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau fu bron â digwydd – contractwyr</td><td>18</td><td>46</td><td>88</td><td rowspan="2">98</td></tr>
<tr><td>Digwyddiadau fu bron â digwydd – y cyhoedd</td><td>3</td><td>16</td><td>76</td></tr>
</table>

- Digwyddiad o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR) yw math o ddigwyddiad y mae'n rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdano.
- Digwyddiad colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ei anafu wrth wneud ei waith a'i fod wedi cael amser i ffwrdd o'r gwaith wedi hynny neu wedi bod yn cyflawni dyletswyddau ysgafn yn sgil yr anafiadau a gafodd (rhaid hysbysu amdano o dan RIDDOR os yw'n para dros saith diwrnod). Mae colli amser yn dechrau ddiwrnod ar ôl i'r unigolyn gael ei anafu.
- Digwyddiad dim colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ei anafu wrth wneud ei waith ond bod angen mân driniaeth cymorth cyntaf arno ac felly nad oes angen iddo gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae digwyddiadau dim colli amser yn cynnwys difrod eiddo i gerbydau ac offer CNC.
- Digwyddiad fu bron â digwydd yw digwyddiad heb ei gynllunio neu heb ei reoli nad yw'n achosi anaf, salwch na difrod, ond a allai wneud hynny.
- Mae anafiadau aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â damweiniau ar feiciau mynydd ar ein llwybrau pwrpasol, a llithro, baglu a chwympo ar lwybrau cerdded. Cynhelir asesiad risg ac archwiliadau rheolaidd ar y llwybrau ac maent yn cael eu harchwilio yn dilyn damwain hefyd.
- Mae digwyddiadau fu bron â digwydd sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn bennaf yn dresmasiad gan y cyhoedd ar safleoedd cynaeafu byw.

## Diweddariadau iechyd a diogelwch cyfredol

**Diweddariadau RIDDOR a digwyddiadau colli amser**

11. Hysbyswyd am ddau ddigwyddiad y gellir eu hadrodd dan RIDDOR ers y diweddariad diwethaf. Roedd un yn ymwneud ag absenoldeb o saith diwrnod oherwydd anaf i stumog aelod o staff wrth gerdded lawr glan afon fel rhan o'i ddyletswyddau arferol.

12. Mae'r ail ddigwyddiad RIDDOR yn ddigwyddiad pellach o Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich y gellir ei adrodd fel rhan o'n goruchwyliaeth iechyd galwedigaethol barhaus ar gyfer yr holl aelodau o staff sy'n defnyddio offer sy'n dirgrynu. Mae'n ymddangos bod y cyflwr hwn wedi datblygu ers i'r aelod o staff weithio i CNC, ond rydym yn adolygu'r dystiolaeth a'r asesiad a ddefnyddiwyd fel rhan o'r diagnosis. Ni chawsom ymateb hyd yma gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r achos newydd hwn. Ar hyn o bryd, mae gennym 17 aelod pellach o staff sydd yng nghanol y broses wyliadwriaeth barhaus ac maent yn aros am ganlyniad eu hasesiad, felly ni allwn fod yn sicr bod yr holl achosion wedi cael eu nodi.

13. O ran y Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich a'r materion a nodwyd yn yr Hysbysiad Tramgwyddo a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, rydym yn parhau i weithio trwy'r camau gweithredu a neilltuwyd yng nghynllun gweithredu’r asesiad risg gyda rheolwyr llinell perthnasol. Mae gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn barhaus, gan gynnwys rhoi prawf ar fesurydd dirgryniad, sydd wedi ei gwblhau. Derbyniodd y mesurydd ymatebion ffafriol gan y staff a'u rheolwyr llinell. Yn seiliedig ar y prawf hwn, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi penderfynu defnyddio'r system fesur hon yn lle'r system bapur bresennol am ei bod yn rhoi mesuriad gwell a mwy cywir o ddatguddiad unigolyn i ddirgryniad, ac ynghyd â'r adroddiadau data rheoli y mae'n eu cynhyrchu, bydd yn helpu rheolwyr i reoli datguddiad eu staff i ddirgryniad yn well. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn gweithio i symud ymlaen i gaffael y dechnoleg hon yn unol â threfniadau llywodraethu CNC. Rydym hefyd yn cydgysylltu â chydweithwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd, yr ydym yn cyfnewid arfer gorau â nhw’n rheolaidd, gan fod y ddau sefydliad wedi bod yn rhoi prawf ar y mesurydd hwn yn annibynnol ac yn bwriadu ei roi ar waith yn dilyn canlyniadau ffafriol y prawf.

**Diweddariadau ar ddigwyddiadau fu bron â digwydd**

14. Mae adroddiadau o ddigwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer y cyfnod hwn yn parhau i fod yn isel o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol ac mewn perthynas â chyfanswm y digwyddiadau hyd yn hyn eleni. Rydym wedi dechrau darparu hyfforddiant i bob rheolwr llinell ym mis Hydref ar hysbysu am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt, a rheoli risgiau iechyd a diogelwch, ac mae cymorth yn cael ei ddarparu i’r busnes trwy ragor o ymgyrchoedd ac ymgysylltu rheolaidd. Yn dilyn adborth gan staff, rydym hefyd yn darparu padiau hysbysu am ddigwyddiadau fu bron â digwydd i staff maes eu cwblhau naill ai fel nodyn atgoffa iddyn nhw eu hunain, neu i'w rhoi i'w rheolwr llinell i gael eu cofnodi ar AssessNET. Rydym hefyd yn gweithio gyda TGCh i fewnosod eicon y system hysbysu AssessNET ar holl sgriniau TG CNC fel ffordd o wella mynediad at y dull hwn o hysbysu.

**Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol**

15. Mae tri adolygiad digwyddiad difrifol newydd wedi cael eu comisiynu ers y diweddariad diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys achos o gontractwr yn cwympo o uchder wrth gasglu hadau, tân yn ymwneud â cherbyd dadlwytho, a marwolaeth aelod o'r cyhoedd ar yr ystad

goetir. Ceir gwybodaeth bellach a diweddariadau ar yr holl adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol yn y tabl isod.

| Rhif | Dyddiad | Disgrifiad | Lleoliad | Statws | Y gwersi a ddysgwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 11 Mawrth 2016 | Anaf difrifol i gontractwr mewn safle cynaeafu cynhyrchu unigol wrth weithio ar lannerch a chwythwyd gan y gwynt. | Talyllychau | Adolygiad wedi cau | Camau gweithredu wedi eu cwblhau. Adolygiad o gynlluniau llannerch ar gyfer coed a chwythwyd gan y gwynt; cydgysylltu mewnol a chyda chyrff allanol ynghylch canfyddiadau digwyddiadau, adolygu asesiadau risg, datganiadau dull a chynlluniau argyfwng. |
| 2 | 1 Mai 2016 | Anaf i aelod o'r cyhoedd a gwympodd oddi ar ei feic ar lwybr yn dilyn gwrthdrawiad â rhwystr dros dro | Ynys Llanddwyn, Tywyn Niwbwrch | Ymchwiliad wedi ei gwblhau. Adroddiad i'w gwblhau. | Camau gweithredu'n parhau. Gwelliannau o ran neilltuad swyddogol y llwybr, arwyddion a rheoli risg. |
| 3 | 13 Gorffennaf 2016 | Taro pont rheilffordd yn Queensferry. Tarodd braich turiwr 7.5 tunnell a oedd yn cael ei gludo ar gefn lori ochr isaf pont rheilffordd yr A494. | Queensferry, gogledd-ddwyrain Cymru | Adolygiad wedi cau | Camau gweithredu wedi eu cwblhau. Nodwyd yr angen am ddogfen gytûn yn dangos dull ar gyfer llwytho offer o uchderau penodol gyda'r lwfansau diogelwch priodol. |
| 4 | 30 Gorffennaf 2016 | Digwyddiad fu bron â digwydd yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd yn ystod gweithgareddau cynaeafu. | Cwm-carn, Bwrdeistref Caerffili | Ymchwiliad wedi ei gwblhau, aros am yr adroddiad terfynol. | Camau gweithredu'n parhau. Rhyngweithio rhwng gweithgareddau cynaeafu a gweithgareddau hamdden; yr angen i gyfathrebu ac am adolygiad o reolaeth contractau |
| 5 | 14 Medi 2016 | Contractwr yn cwympo o uchder wrth gasglu hadau | Nercwys, gogledd-ddwyrain Cymru | Ymchwiliad wedi ei gwblhau Adroddiad terfynol wedi ei gymeradwyo. Gweler isod am fanylion pellach | Argymhellion ar gyfer rheolwyr contractau ond nid yw'n berthnasol i'r digwyddiad hwn nac yn cyfrannu ato. |
| 6 | 12 Hydref 2016 | Tân yn ymwneud â cherbyd dadlwytho | Coedwig Afan, Sir Gaerfyrddin | Ymchwiliad wedi dechrau. Gweler isod am fanylion pellach | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 23 Hydref 2016 | Marwolaeth aelod o'r cyhoedd yn ymwneud â cherbydau heb eu trwyddedu | Coedwig Cilgwyn, Llanymddyfri | Ymchwiliad wedi dechrau. Gweler isod am fanylion pellach | |

**Adolygiadau cyfredol**

**16. Adolygiad o ddigwyddiad difrifol (5) o gontractwr yn cwympo o uchder wrth gasglu hadau** – cwympodd contractwr tua 15 metr o goeden wrth gasglu hadau pan ddaeth cangen yr oedd wedi ei glymu â rhaff iddi yn rhydd. Derbyniodd y contractwr gymorth cyntaf ar y pryd a cherddodd oddi ar y safle ond derbyniodd driniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddarach am grac mewn dau fertebra ac fe'i rhoddwyd ar ddyletswyddau ysgafn. Cyflwynwyd adroddiad RIDDOR gan y contractwr. Edrychodd ein hadolygiad ar ein perthynas gytundebol gan gynnwys gwiriadau a gynhaliwyd cyn dyfarnu contract a'r oruchwyliaeth a gynhaliwyd yn ystod y contract. Mae'r adolygiad yn gyflawn yn awr gyda mân argymhellion yn ymwneud â rheolaeth contractau ond nid yw'n berthnasol i'r digwyddiad hwn nac yn cyfrannu ato.

**17. Adolygiad o ddigwyddiad difrifol (6) o dân yn ymwneud â cherbyd dadlwytho ar safle contractwr yn Afan** - Aeth cerbyd dadlwytho ar dân wrth wneud gwaith ail-adfer yn dilyn gweithgareddau cynaeafu coed yn Afan. Ni chafwyd unrhyw anafiadau o ganlyniad i'r digwyddiad hwn ond oherwydd y difrifoldeb posibl a'r tebygrwydd y gallai ddigwydd eto, mae adolygiad o'r digwyddiad newydd ddechrau.

18. Adolygiad o ddigwyddiad difrifol (7) o farwolaeth aelod o'r cyhoedd yn Llanymddyfri - Derbyniodd CNC adroddiad am farwolaeth aelod o'r cyhoedd ar yr ystad goetir ger Llanymddyfri a oedd yn ymwneud â defnydd o feiciau modur a cherbyd sy'n addas ar gyfer pob math o dir, yn ystod gweithgaredd heb ei drwyddedu. Mae ein hadolygiad o'r digwyddiad wedi dechrau. Bydd unrhyw argymhellion a nodir o'r ymchwiliad yn edrych ar y cyfleoedd i wella y gellir eu rhoi ar waith ar draws ein holl ystad goetir. Mae'r farwolaeth yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ar hyn o bryd.

**Diweddariadau eraill**

**19. Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli)** – Codwyd pryder sy'n dangos nad yw CNC yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn o ran agweddau ar weithrediadau gwerthu coed sy'n dal i sefyll, llennyrch amodau arbennig, ac mewn mannau eraill lle caiff gwaith peirianneg sifil ei gyflawni. Cafodd y pryderon hyn eu dwysáu gan ganfyddiadau dechreuol yr ymchwiliad digwyddiad difrifol i'r tân a oedd yn ymwneud â'r cerbyd dadlwytho yng Nghoedwig Afan, lle gallai hwn fod yn ffactor a gyfrannodd at y digwyddiad.
O ganlyniad, cynhaliodd Gweithrediadau adolygiad cyflym iawn o'r holl weithgareddau parhaus perthnasol, a ganfu fylchau mewn agweddau ar ein gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn gweithrediadau coedwig. O ganlyniad, rydym wedi atal gweithgareddau dros dro ar safle yn Abergwyngregyn nes ein bod yn fodlon bod ein staff sy'n gweithio gyda chontractwyr coedwigaeth wedi derbyn hyfforddiant digonol. Roedd dau safle arall lle'r oedd gwaith wedi ei gynllunio ond bydd y rhain yn cael eu hasesu cyn i weithrediadau ddechrau.

## Argymhellion

20. Nodi materion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn.

## Risgiau allweddol

21. Caiff risgiau llesiant, iechyd a diogelwch parhaus eu nodi a'u monitro trwy gyfrwng y gofrestr risg llesiant, iechyd a diogelwch wedi'i diweddaru. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

## Goblygiadau Ariannol

22. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol. Mae buddsoddiad yng ngofynion dysgu a datblygu CNC yn gynwysedig yng nghyllideb hyfforddiant 2016-17. Mae hawliadau atebolrwydd cyflogwr yn bosibl yn y dyfodol mewn perthynas â chlefyd Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich.

## Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

23. Ni chynhaliwyd asesiad ar gyfer y papur briffio hwn.